## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (DINAS, SIR BENFRO) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, yn Ninas, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd o'i chyffordd â Bryngelli hyd at bwynt 170 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Gae Tabor, Dinas.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A487 tua'r gorllewin i Abergwaun, yr A40 tua'r de i Hwlffordd, yr A40 tua'r dwyrain i Benblewin a'r A478 tua'r gogledd i Aberteifi i ailymuno â'r A487: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 2 Hydref 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol rhwng 08:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://www.llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A487 TRUNK ROAD (DINAS CROSS, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A487 trunk road at Dinas Cross, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A487 trunk road that extends from a point 20 metres north of its junction with Bryngelli to a point 170 metres south of the centre-point of its junction with the road leading to Cae Tabor, Dinas Cross.

The alternative route for northbound vehicles is via the westbound A487 to Fishguard, southbound A40 to Haverfordwest, eastbound A40 to Penblewin and northbound A478 to Cardigan to rejoin the A487: vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 2 October 2023. The temporary prohibition is expected to operate from 08:00 to 18:00 hours on that date or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government